Ry'n ni wedi cadw ffeiliau a elwir yn cwcis ar eich dyfais. Mae'r cwcis hyn:

- yn hanfodol i'r safle weithio

Byddem hefyd yn hoffi cadw rhai cwcis i'n helpu ni:

- i wella'n gwefan drwy gasglu ac adrodd gwybodaeth ar sut yr ydych yn defnyddio'r safle
- i deilwra cyfathrebu

Derbyn cwcis | Newid gosodiadau cwcis



CANLLAWIAU

# Canllawiau rhieni ar ofal plant i rai dan bump oed: coronafeirws

**Sut gall gweithwyr allweddol a rhieni plant bregus gael help gyda gofal plant.**

Rhan o: Coronafeirws (COVID-19): gofal plant i rai dan bump oed, Gofal plant a rhianta a Gofal plant: coronafeirws

Cyhoeddwyd gyntaf: 6 Ebrill 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 2 Gorffennaf 2020

### Cynnwys

- Cyflwyniad
- Pwy sy'n gymwys
- Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer y Cynnig
- Yr effaith ar eich Budd-daliadau
- Sut mae gwneud cais
- Plant agored i niwed
- Gweithwyr allweddol sydd â phlant oed ysgol
- Fel gweithiwr allweddol neu riant â phlentyn sy'n agored i niwed, a allaf anfon fy mhlentyn i leoliad gwahanol os yw fy un arferol ar gau ac fy mod i'n cael y Cynnig Gofal Plant?
- A oes rhaid i weithwyr allweddol anfon eu plant i leoliad gofal plant?
- Nid yw fy mhlentyn yn mynd i ofal plant – pam mae'r lleoliad yn dweud wrthyf y bydd yn parhau i godi tâl arnaf tra mae ar gau?
- Alla i ddewis y lleoliad y mae fy mhlentyn yn mynd iddo ar gyfer tymor yr haf?
- Alla i ddefnyddio'r Cynnig yn ystod gwyliau'r haf i dalu am glybiau gwyliau?
- Cynyddu nifer y plant y gall gwasanaeth gofal plant ofalu amdanynt
- Cadw plant yn ddiogel

## Cyflwyniad

Mae **Cynnig Gofal Plant Cymru**, sy'n darparu hyd at 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth i blant 3 a 4 oed o deuluoedd cymwys, ar gau i blant newydd ar hyn o bryd.

O wneud hyn, mae modd defnyddio'r cyllid i gefnogi gweithwyr allweddol gyda'u costau gofal plant a chefnogi plant agored i niwed yn ystod pandemig y coronafeirws. Darperir y cyllid hwn drwy Gynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws.

### Cynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws

Bydd y Cynllun hwn yn ariannu costau gofal plant cyn-ysgol (plant rhwng 0 a 5 oed sydd heb le mewn ysgol) ar gyfer:

- **plant gweithwyr allweddol**
- plant agored i niwed cyn oed ysgol

Bydd y gronfa yn darparu gofal y tu allan i oriau ac ar benwythnosau. Nid oes terfyn o ran faint o oriau o ofal a gaiff y plant.

Ni cheir defnyddio'r cynllun i dalu ffioedd cadw lle'r darparwyr.

### Plant agored i niwed cyn oed ysgol

Gall rhieni neu warcheidwaid plant agored i niwed wneud cais am ofal plant a'i ddefnyddio nes bod y cynllun yn dod i ben.

### Rhieni neu warcheidwaid sy'n gweithio yn y byd addysg

Gall rhieni neu warcheidwaid sy'n gweithio yn y byd addysg, fel athrawon neu staff cymorth ehangach yr ysgol, wneud cais am ofal plant a'i ddefnyddio hyd at ddiwedd tymor haf yr ysgol.

### Gweithwyr allweddol eraill

Gall gweithwyr allweddol eraill wneud cais hyd at 12 Gorffennaf 2020. Os byddant yn gymwys gallant gael gofal plant nes bod y cynllun yn dod i ben.

### Cau'r Cynllun

Rydym yn disgwyl i'r cynllun ddod i ben ddiwedd mis Awst. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa dros yr haf, gan ystyried y dystiolaeth ynghylch y feirws a'i drosglwyddiad.

## Pwy sy'n gymwys

Mae aelwydydd lle mae rhiant yn **weithiwr allweddol** yn gymwys ar gyfer y cynllun. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr mewn llochesi a llety â chymorth ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig.  Mae plant agored i niwed hefyd yn gymwys.

## Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer y Cynnig

Ers 1 Ebrill nid yw awdurdodau lleol wedi bod yn derbyn nac yn prosesu unrhyw geisiadau newydd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.

O 22 Mehefin 2020 ymlaen, pan fydd modd i wasanaethau gofal plant gynyddu nifer y plant y maent yn gofalu amdanynt, byddwn yn darparu cyllid ar gyfer plant a oedd yn gymwys ar gyfer y Cynnig ac yn manteisio arno cyn diwedd mis Mawrth 2020, os mai dyna yw dymuniad y rhiant. Ni ddarperir unrhyw arian lle nad yw plentyn yn mynychu gofal plant.

Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau newydd ar gyfer y Cynnig tan fis Medi 2020. Ni fydd plant a oedd i fod dechrau derbyn y Cynnig o ddechrau tymor ysgol yr haf yn ei dderbyn hyd nes bydd y cyfnod atal dros dro hwn wedi dod i ben.

Darllenwch **ddatganiad y Dirprwy Weinidog ar 9 Mehefin am gyllid ar gyfer gofal plant**.

## Yr effaith ar eich Budd-daliadau

Gallai unrhyw gyllid a gewch gennym ni tuag at eich costau gofal plant effeithio ar fudd-daliadau eraill a gewch.

### Gofal plant di-dreth

Os ydych yn cael gofal plant di-dreth, rhaid i chi hysbysu CThEM am **unrhyw newidiadau yn eich sefyllfa ar GOV.UK** wrth gadarnhau eich manylion bob 3 mis.

Mae hyn yn cynnwys y cyllid y byddwch yn ei gael gennym i helpu i dalu costau gofal plant. Efallai y bydd modd i chi ddefnyddio gofal plant di-dreth i dalu am gostau ychwanegol fel bwyd, cludiant a ffioedd cadw lle. Rhaid i chi gadarnhau gyda CThEM os gallwch hawlio'r costau hyn fel rhan o'r gofal plant di-dreth.

### Credyd Cynhwysol

Os ydych yn cael yr elfen o Gredyd Cynhwysol sydd ar gyfer gofal plant, **rhaid i chi hysbysu'r Adran Gwaith a Phensiynau am unrhyw newidiadau yn eich bywyd gwaith neu deuluol ar GOV.UK.**

### Credydau treth

Os ydych yn derbyn credydau treth, bydd angen i chi **hysbysu CThEM am unrhyw newidiadau yn eich bywyd gwaith neu deuluol ar GOV.UK**. Mae hyn yn cynnwys y cyllid rydych yn ei gael gennym i helpu i dalu costau gofal plant.

## Sut mae gwneud cais

Cysylltwch â'ch **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol** i drafod eich anghenion gofal plant ac i gael gwybod sut i wneud cais.

## Plant agored i niwed

Mae plant agored i niwed yn cynnwys y rheini sy'n derbyn cefnogaeth gan wasanaethau cymdeithasol, gofalwyr ifanc, plant anabl a'r sawl sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig.

## Gweithwyr allweddol sydd â phlant oed ysgol

O 22 Mehefin 2020 ymlaen, bydd brodyr a chwiorydd hŷn sydd eisoes yn cael cyllid i fynd i leoliad gyda brodyr neu chwiorydd iau yn medru parhau i wneud hynny hyd at ddiwedd tymor yr haf fan bellaf (eich awdurdod lleol fydd yn penderfynu ar y dyddiad y bydd hyn yn dod i ben). Bydd disgwyl i'r brodyr a chwiorydd hŷn fynychu'r ysgol fodd bynnag.

Ni fydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl 19 Mehefin 2020 yn gymwys.

### Eithriadau

Ychydig iawn o eithriadau sydd, megis plant agored i niwed lle bo awdurdod lleol o'r farn y byddai ariannu brodyr a chwiorydd hŷn er budd y plentyn neu'r teulu hwnnw.

## Fel gweithiwr allweddol neu riant â phlentyn sy'n agored i niwed, a allaf anfon fy mhlentyn i leoliad gwahanol os yw fy un arferol ar gau ac fy mod i'n cael y Cynnig Gofal Plant?

Gallwch, byddwn yn ariannu eich costau gofal plant ar wahân i unrhyw ffioedd cadw a godir gan ddarparwyr gofal plant.

## A oes rhaid i weithwyr allweddol anfon eu plant i leoliad gofal plant?

Efallai y bydd llawer o rieni sy'n gweithio yn y sectorau allweddol hyn yn gallu sicrhau bod eu plentyn yn cael ei gadw gartref. Dylai pob plentyn y gellir gofalu amdano'n ddiogel gartref gael gofal gartref. Cynnig i rieni a gofalwyr yw hwn ac nid oes rhaid i rieni a gofalwyr anfon eu plant i leoliad gofal plant os nad oes angen hynny arnynt neu os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny.

## Nid yw fy mhlentyn yn mynd i ofal plant – pam mae'r lleoliad yn dweud wrthyf y bydd yn parhau i godi tâl arnaf tra mae ar gau?

Rydym yn cydnabod, mewn llawer o achosion, na fydd yr yswiriant sydd gan ddarparwyr y blynyddoedd cynnar yn eu digolledu am incwm y maent yn ei golli drwy orfod cau oherwydd COVID-19. Mae nifer o gynlluniau cymorth i fusnesau ar gael i leihau effaith COVID-19 arnynt.

Rydym yn gofyn i ddarparwyr gofal plant fod yn rhesymol a chytbwys wrth ddelio â rhieni. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw golwg fanwl ar ba gymorth pellach sydd ei angen ar fusnesau.

## Alla i ddewis y lleoliad y mae fy mhlentyn yn mynd iddo ar gyfer tymor yr haf?

Os yw eich lleoliad presennol ar agor gallwch barhau i ddefnyddio'r lleoliad hwnnw. Os yw wedi cau gall eich **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol** eich helpu gyda gwybodaeth am ba leoliadau sydd ar agor yn eich ardal.

## Alla i ddefnyddio'r Cynnig yn ystod gwyliau'r haf i dalu am glybiau gwyliau?

Gallwch, gall clybiau gwyliau ddarparu elfen gofal plant y Cynnig Gofal Plant. Mae angen iddynt fod wedi cofrestru gydag **Arolygiaeth Gofal Cymru** (neu **Ofsted** yn Lloegr). Bydd angen i chi ddod o hyd i glwb gwyliau sy'n darparu'r Cynnig sy'n diwallu eich anghenion gofal plant chi orau.

Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i bennu pa ddarpariaeth fydd ar gael dros yr haf.

## Cynyddu nifer y plant y gall gwasanaeth gofal plant ofalu amdanynt

O 22 Mehefin 2020, bydd gwasanaethau gofal plant, gan gynnwys Dechrau'n Deg, yn gallu cychwyn ailagor neu ofalu am ragor o blant, ar yr un pryd ag y bydd plant yn gallu dychwelyd i'r ysgol. Byddwn yn adolygu hyn gydol pandemig y coronafeirws.

## Cadw plant yn ddiogel

Mae anfon eich plentyn i leoliad gofal plant yn cario risg isel. Rydym wedi cyhoeddi **canllawiau** i helpu lleoliadau i baratoi ar gyfer cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ganddynt. Yn y pen draw, y rhieni ddylai benderfynu p'un ai i anfon eu plant i leoliad gofal plant ai peidio.

**Cyhoeddwyd gyntaf**
6 Ebrill 2020

**Diweddarwyd ddiwethaf**
2 Gorffennaf 2020

**Rhan o**
Coronafeirws (COVID-19): gofal plant i rai dan bump oed
Gofal plant a rhianta
Gofal plant: coronafeirws